



# Cylchlythyr

## Gwanwyn 2016

Annwyl Aelod o'r Panel,

Croeso i Gylchlythyr Cynnwys Casnewydd....



Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi adborth ar rai o'r pynciau a oedd yn destun ymgynghoriad Arolygon y Panel yn **Haf** a **Gwanwyn** 2015, gan grynhoi 'beth ddywedoch chi wrthym ni' a 'beth wnaethom ni'. Darllenwch y cylchlythyr i gael rhagor o wybodaeth.



## Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni... ...Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru; Beth sy'n Bwysig i Chi?

Rhwng misoedd Ebrill a Gorffennaf 2015, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ati i gynnal ymgyrch "Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru" er mwyn darparu gwybodaeth i'n cymunedau am y gwasanaethau amrywiol sy'n cael eu darparu gennym.

South Wales  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru

Hefyd, cynhaliwyd arolwg "Beth Sy'n Bwysig i Chi?" a oedd yn gofyn cwestiynau allweddol i chi am ein gwasanaethau er mwyn ein helpu i lywio ein darpariaeth yn y dyfodol. Mae'ch cyfraniadau wedi bod yn wych; derbyniwyd dros 1,400 o ymatebion i'r arolwg (gan gynnwys ymatebion Cynnwys Casnewydd), ac roedd y wybodaeth a ddaeth i law yn hynod ddefnyddiol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall y materion sy'n bwysig i chi. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i chi am eich cefnogaeth a'ch cymorth; hwn oedd y tro cyntaf i ni gynnal ymgyrch ac arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd, ac rydym yn bwriadu ailadrodd y broses cyn bo hir.

Bydd yr adroddiad ar yr adborth ar gael ar wefan [Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru](http://GwasanaethTân.ac.AchubDeCymru) yn fuan. Yn y cyfamser, os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am yr ymgyrch, e-bostiwch: [haveyoursay@southwales-fire.gov.uk](mailto:haveyoursay@southwales-fire.gov.uk) neu ffoniwch: (01443) 232000.

## Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni... ... Canfyddiadau o Gasnewydd

Yn ôl canlyniadau arolwg y Gaeaf (Ionawr 2016) Panel y Dinasyddion, yn 2013 dim ond 24.8% a oedd yn cytuno â'r datganiad bod Casnewydd yn dod yn lle gwell i fyw – erbyn hyn mae dros 70% yn cytuno (cynnydd enfawr o 45%).

Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno bod Casnewydd yn lle da i fyw hefyd - 60.81% ym mis Ionawr 2016 o gymharu â dim ond 42.58% ym mis Ebrill 2013. Mae nifer y rhai sy'n dweud eu bod yn falch o ddod o Gasnewydd yn cynyddu hefyd - o 33% ym mis Ebrill 2013 i 43.99% ym mis Ionawr 2016.

Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u croesawu gan y Cyngorydd John Richards, Aelod y Cabinet dros Adfywio a Buddsoddi, a ddywedodd fod y canlyniadau yn hwb enfawr i'r ddinas ac yn dangos bod rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid y Cyngor yn werth chweil.

"Mae'r arolwg hwn yn dangos bod mwy a mwy o bobl yn cefnogi ein rhaglen adfywio a bod y buddsoddiad yn cael effaith dda ar y ddinas. Mae wedi rhoi hwb i'r economi leol, ac mae mwy o bobl yn gallu dod o hyd i swyddi.

"Mae hyn yn argoeli'n dda iawn ar gyfer buddsoddi yn ein dinas yn y dyfodol ac mae'n dangos bod gwaith adfywio yn bwysig iawn. Mae'n wych gweld y ffigurau yn codi cymaint. Roedd tua 25 y cant yn meddwl bod Casnewydd yn lle gwell i fyw yn 2013, ond erbyn eleni roedd y ganran hon wedi codi i lefel uchel iawn – 70 y cant.

"Mae gwella canfyddiad pobl leol yn magu hyder a fydd yn arwain at fwy o fuddsoddi yn y ddinas," meddai'r Cyngorydd Richards."

## Beth ddywedoch chi wrthym ni... ... Profion Llygaid ar gyfer Pobl Ifanc

Dangosodd y canlyniadau fod 67% wedi nodi bod plant rhwng 0 a 10 oed wedi cael prawf / archwiliad llygaid, yn bennaf gan optometryddion lleol (53%). Roedd rhai wedi cael prawf / archwiliad llygaid gan nyrs ysgol (15%) ac roedd 21% wedi cael eu sgrinio. Roedd 9% wedi gweld orthoptydd. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod wedi mynd i Specsavers fel eu hoptometrydd lleol.

Roedd 79% o blant rhwng 11 ac 16 oed wedi cael prawf llygaid, gyda 69% ohonynt yn mynd at optometrydd lleol. Yn olaf, dywedodd 28% o rieni nad oeddent yn ymwybodol bod prawf llygaid am ddim ar gael ar gyfer plant o dan 16 oed neu o dan 18 oed os ydynt mewn addysg lawn amser.

## Beth wnaethom ni...

Rydym wedi rhoi gwybod am hyn i Grŵp Cyngori Llywodraeth Cymru. Hefyd, rydym wedi gweithio gydag ysgolion i ymgysylltu plant â gwasanaethau gofal llygaid a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni...**

**... Diogelwch yng Nghasnewydd**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r arolwg diwethaf (Ionawr 2016) yn parhau i gytuno bod yr heddlu a'r cyngor yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â throseddu / ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal (bron i 59%), a dim ond ychydig dros 20% a oedd yn teimlo nad oedd problemau diogelwch lleol yn cael eu datrys.

Hefyd, roedd aelodau'r Panel yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol bob awr o'r dydd. Yng nghanol y ddinas roedd mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd (dros 83%) nag yn ystod y nos (38%). Roedd barn pobl ar yr heddlu yn eu hardal yn dangos bod y rhan fwyaf yn cytuno â'r datganiadau. Roedd dros 81% yn cytuno bod yr heddlu yn eu trin â pharch, a llai na 54% yn cytuno eu bod yn mynd i'r afael â materion pwysig.

**Beth wnaethom ni...**

Bydd eich adborth yn parhau i gael ei ddefnyddio i ganfod barn y cyhoedd ar ddiogelwch yng Nghasnewydd ar gyfer Heddlu Gwent ac i gefnogi'r gwaith o dan Thema Cymunedau Diogel a Chydlynus yng Nghynllun Integredig Sengl Casnewydd yn Un.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni...**

**... Iechyd Llygaid**

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn fodlon â gwasanaeth yr optometrydd neu'r optegydd. Roedd y rhan fwyaf o bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn credu ei fod yn rhagorol ac yn broffesiynol. Fodd bynnag, nid oedd 18% yn ymwybodol o optometryddion / optegwyr lleol.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon â gwasanaeth yr offthalmolegydd / ysbyty llygaid, roedd lefel y bodlonrwydd yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon â'u hapwyntiad â'r offthalmolegydd / meddyg llygaid; fodd bynnag, roedd pobl yn llai bodlon â'r gwasanaeth cyn ac ar ôl yr apwyntiad. Dywedodd llawer o bobl eu bod wedi aros yn hir am apwyntiad, tra bod rhai wedi troi at ofal preifat.

Nid oedd 68% yn gwybod am y Gwasanaeth Sgrinio Retinopat heg Diabetig, ond roedd y rhan fwyaf o bobl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn meddwl bod y safon yn rhagorol. Nid oedd 93% o bobl yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Golwg Gwan, ac nid oedd 93% o bobl yn gwybod am Wasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru.

**Beth wnaethom ni...**

Rhannwyd canlyniadau'r arolwg â Fforwm Cyngori Llywodraeth Cymru (MEGAFOCUS). Mae'r Fforwm yn cynnwys Optometreg Cymru, Golwg Gwan Cymru, Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, Gwasanaeth Sgrinio Retinopat heg Cymru, Offthalmolegwyr a Sector Gofal Llygaid Cymru.

Rhannwyd y canlyniadau ac mae Llywodraeth Cymru wedi creu taflenni gwybodaeth am ei Gwasanaeth Gofal Gwan ac Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (sydd ar gael mewn meddygfeydd). Mae rhai apwyntiadau dilynol ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid eilaidd yn cael eu symud i'r sector gofal llygaid sylfaenol er mwyn lleihau amseroedd aros.

## Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni... ...Gwella Gwasanaethau mewn Practisau Meddygon Teulu

Roedd canlyniadau'r arolwg yn ymwneud â sawl maes, a dyma rai o'r canlyniadau:

### Cael Brechiad Rhag y Ffliw

Nododd bron i 69% o bobl ei bod yn hawdd cael brechiad rhag y fflw yn ystod y gaeaf.

Gan mai cynyddu nifer y bobl sy'n cael brechiad rhag y fflw yw un o flaenoriaethau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i wella lefel y defnydd eleni a datrys yr anawsterau a wynebodd rhai unigolion wrth geisio cael brechiad rhag y fflw y gaeaf diwethaf.

Mae'n rhaid i ofalwyr gofio bod angen iddynt gadarnhau eu bod wedi'u cofrestru gyda'r practis fel gofalwyr er mwyn cael gwahoddiad am apwyntiad.

### Cyfrannu at gynllunio gwasanaethau newydd

Roedd dros 74% o bobl yn fodlon helpu i gynllunio gwasanaethau newydd a chyfrannu at eu gwaith.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella profiadau cleifion. Bydd yr awgrymiadau penodol sydd wedi'u gwneud yn cael eu cynnwys yn nhrefnadaethau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Casnewydd â phractisau meddygon teulu.

Mae rhai practisau wedi sefydlu fforymau cleifion, felly cofiwch ofyn a oes fforwm o'r fath wedi'i sefydlu yn eich practis chi. Fel arall, gallwch chi fynd ati i sefydlu fforwm. Mae menter i gynyddu cyfranogiad cleifion ar waith hefyd, a bydd rhagor o arolygon yn cael eu cynnal i helpu i wella gwasanaethau ymhellach.

### Gwasanaethau Tecstio

Nodwyd bod bron i 80% o bobl yn fodlon derbyn negeseuon testun i roi gwybod am apwyntiadau, ac mae practisau wrthi'n cyflwyno gwasanaethau tecstio ledled Casnewydd.

Hefyd, roedd bron i 75% yn fodlon derbyn negeseuon testun yn ymwneud â chanlyniadau arferol. Roedd canlyniadau'r cwestiwn hwn yn gymysg, gan nad oedd 25% o gleifion yn fodlon derbyn canlyniadau mewn negeseuon testun. Trafodir y pwnc hwn ymhellach fel rhan o'r broses o gyflwyno gwasanaethau tecstio ledled y practisau.

### Gwneud apwyntiadau ar-lein

Yn olaf, roedd bron i 70% o bobl yn fodlon gwneud apwyntiad ar-lein i weld y meddyg teulu neu'r nyrs.

Mae'r gwasanaeth hwn eisoes ar gael mewn rhai practisau, a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau ei fod ar gael yn ehangach.



## Beth ddywedoch chi wrthym ni... ...Cynllun Gwella Cyngor Dinas Casnewydd 2016-18

Fel rhan o ymgynghoriad Cyngor Dinas Casnewydd ar ei Chynllun Gwella 2016-18, gofynnwyd i gyfranogwyr ddewis tri phrif flaenoriaeth o restr o 12 dewis. Cafwyd ymateb gan dros 625 o gyfranogwyr (gan gynnwys 275 drwy'r Panel Dinasyddion), sef cynnydd o 18% o gymharu â'r llynedd.

Y tair prif flaenoriaeth a nodwyd oedd 'Cynorthwyo pobl ifanc i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant' (297 pleidlais); 'Datblygu ac adfywio'r ddinas' (239 pleidlais); a 'Helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol' (213 pleidlais).

## Beth wnaethom ni...

Cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad i Gabinet Cyngor Dinas Casnewydd ym mis Ionawr, a chytunwyd ar wyth prif flaenoriaeth yn deillio o'r ymgynghoriad. Roedd y blaenoriaethau yn ymwneud â phob un o'r themâu Corfforaethol ac yn cynnig croestoriad eang o wasanaethau ledled yr Awdurdod. Byddai'n darparu set gytbwys o flaenoriaethau ar gyfer Cynllun Gwella 2016-18.

Dyma'r wyth blaenoriaeth:

1. Cynorthwyo pobl ifanc i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Dinas sy'n dysgu a gweithio)
2. Datblygu ac adfywio'r ddinas (Dinas sy'n dysgu a gweithio)
3. Helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol (Dinas ofalgar)
4. Sicrhau bod gan bobl y gwasanaethau cymdeithasol priodol i ddiwallu eu hanghenion (Dinas ofalgar)
5. Gwella deilliannau addysgol i blant (Dinas sy'n dysgu a gweithio)
6. Sicrhau bod modd i bobl gael gafael ar lety addas (Dinas decach)
7. Atal troseddu ac aildroseddu ymysg pobl ifanc (Dinas sy'n fwy diogel)
8. Cynyddu cyfraddau ailgylchu (Dinas sy'n fwy gwyrdd ac iach)

Wedyn, trafodwyd Cynllun Gwella 2016-18 gan y Pwyllgor Craffu cyn i'r cynllun terfynol gael ei gytno gan y Cyngor ar ddiwedd mis Ebrill 2016. Ar ôl cael ei gytno, cyhoeddir y cynllun terfynol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

## Diolch i chi!!!

Diolch o galon i bawb a gwblhaodd Arolygon yr Haf a'r Hydref – rydym yn gwerthfawrogi'ch adborth yn fawr. Dyma'r cyfraddau ymateb ar gyfer y ddau arolwg: Arolwg yr Haf (42%, 302 o ymatebion); Arolwg yr Hydref (38%, 276 o ymatebion).

## Cysylltu â ni

E-bost: [one.newport@newport.gov.uk](mailto:one.newport@newport.gov.uk) neu Rif Ffôn: (01633) 656 656

Gwefan: [www.onenewportlsb.newport.gov.uk](http://www.onenewportlsb.newport.gov.uk) neu dilynwch ni ar Twitter [@OneNewport](https://twitter.com/OneNewport).